# Cyfarfod Grŵp Ecosystem Arfordirol Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru - 14 o Weithrediadau

Swyddfeydd Cyfoeth Naturiol Cymru, y Drenewydd

## 21 Ionawr 2016

**Presennol**: Angus Garbutt, Cadeirydd (Canolfan Ecoleg a Hydroleg); Emmer Litt (CNC); Sean McHugh (Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru); Julie Creer (CNC); Duncan Ludlow (CNC); Heather Lewis (CNC); Alan-Kearsley Evans (Ymddiriedolaeth Genedlaethol); Martin Skov (Prifysgol Bangor); Mark Underhill (RSPB Cymru / Cyswllt Amgylchedd Cymru);

Ymddiheuriadau: Mark Winder (Cyngor Dinas a Sir Abertawe); Wendy Harris (Prifysgol Abertawe); Sarah Mellor (Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro); Rick Park (CNC)

1. **Cyflwyniad**

   Gwnaeth Angus groesawu pawb i'r cyfarfod; mae'r cyfarfod yn gyfle i ailystyried cyfeiriad y grŵp a bydd hyn yn llywio rhaglen gwaith y Grŵp Ecosystem Arfordirol. Hefyd, mae angen i'r Grŵp Ecosystem Arfordirol ddatblygu syniad clir ynglŷn â sut bydd y grŵp yn ymgysylltu â'r Prosiect Bylchau Tystiolaeth a'r strwythur newydd a nodwyd gan Fframwaith Bioamrywiaeth Cymru. Mae Bwrdd Strategaeth Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yn dylunio'r strwythur llywodraethu (Fframwaith Bioamrywiaeth Cymru) sy'n cynnwys sut y bydd y 'grwpiau arbenigol' yn ffitio i mewn i'r strwythur yn gyffredinol. Yn y cyfamser, cynrychiolir y Grŵp Ecosystem Arfordirol yng nghyfarfod cadeiryddion Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru, sy'n dod â'r holl gadeiryddion ecosystem a chadeiryddion arbenigwyr ar rywogaethau at ei gilydd.

   Cyflwynodd Sean ddiweddariad cryno ar y Cynllun Adfer Natur a lansiwyd ym mis Rhagfyr 2015. Mae'r prif bwyntiau wedi'u rhestru isod. Bydd y Cynllun Adfer Natur yn cael ei lansio'n swyddogol yn y gwanwyn.

   **Cynllun Adfer Natur Cymru**

   Bwriad Cynllun Adfer Natur Cymru yw mynd i'r afael ag achosion sylfaenol dros golled bioamrywiaeth drwy:

- roi natur wrth wraidd ein proses penderfynu
- cynyddu gwydnwch ein hamgylchedd naturiol
- cymryd camau gweithredu penodol ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau

   Mae'n nodi sut y bydd Cymru'n cyflenwi ymrwymiadau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol a Strategaeth Bioamrywiaeth yr Undeb Ewropeaidd er mwyn atal y dirywiad o ran ein bioamrywiaeth erbyn 2020 ac wedyn wrthdroi'r dirywiad hwnnw.

   **Rhan 1**

   Mae'r Strategaeth Natur yn nodi:

- ein hymrwymiad i fioamrywiaeth yng Nghymru

- y materion mae angen i ni roi sylw iddynt a'n hamcanion o ran  camau gweithredu

Mae'n nodi sut bydd ein camau gweithredu presennol ac arfaethedig, yn enwedig drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a thrwy Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy, yn cyfrannu at wrthdroi colled bioamrywiaeth yng Nghymru.

**Rhan 2**

Mae'r Cynllun Gweithredu'n nodi'r camau gweithredu hynny sydd wedi cael eu nodi'n benodol er mwyn bodloni ein hamcanion o ran gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth. Bydd gweithgorau ar gyfer pob amcan nawr yn datblygu'r manylion yn bellach ar gyfer pob un o'r gweithrediadau hyn drwy:

- osod targedau a cherrig milltir
- nodi dulliau cyllido addas.
- cyflawni camau gweithredu lle bo'n briodol

**Rhan 3**

(Mewn datblygiad) Bydd y Fframwaith Adfer Natur yn dangos:

- y strwythur llywodraethu ar gyfer y Cynllun Adfer Natur
- rolau a chyfrifoldebau pawb sy'n cymryd rhan mewn cyflenwi camau gweithredu ar gyfer bioamrywiaeth yng Nghymru
- y mesurau atebolrwydd ar waith er mwyn sicrhau cyflenwad

**2. Diweddariadau grwpiau**

Martin Skov, Gwyddorau Eigion Prifysgol Bangor

Mae gwaith Martin yn cynnwys ymchwilio i wasanaethau a swyddogaeth ecosystemau; gwlyptiroedd arfordirol (gan gynnwys morfeydd heli); cymryd rhan yn y prosiect Cynaliadwyedd Gwasanaethau Bioamrywiaeth ac Ecosystemau – prosiect a gyllidwyd gan Gyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol; a gwasanaethau ecosystem mewn cynefinoedd gwastadeddau llaid a morfeydd heli. Un o'r allbynnau fydd offeryn darogan sy'n paru cymunedau Dosbarthu Llystyfiant Cenedlaethol (NVC) â nodweddion eraill, gan gynnwys storio carbon, er mwyn cyflenwi gwasanaethau ecosystem. Mae Martin hefyd yn cymryd rhan yn y prosiect Resil Coast, unwaith eto un sy'n canolbwyntio ar gynefinoedd morfeydd heli ac yn ystyried yr hyn sy'n tanategu 'gwydnwch' – gan gasglu data hanesyddol a chyfoes er mwyn creu darlun o newidiadau yn y morfeydd heli dros gyfnod o amser. Bydd y prosiect yn integreiddio theori ag elfennau ymarferol.

Emmer Litt, Cyfoeth Naturiol Cymru

Gwnaeth Emma gyflwyno i'r grŵp y cynnydd sydd wedi bod yn y rhaglen adnewyddu twyni tywod yng Nghymru. Mae'r uchafbwyntiau yn cynnwys cynnydd o 1% yn y tywod moel a grëwyd yn Niwbwrch ar Ynys Môn fel rhan o dri gwaith adnewyddu twyni tywod ar dir sy'n cynnwys 18.5 hectar. Roedd lleoliad y 'rhiciau' sy'n cysylltu'r twyni â'r môr wedi cyfrannu at sianelu'r tywod i

mewn i'r system. Yng Nghynffig, mae tri chyfnod o waith wedi arwain at 10.2 hectar o adnewyddiad twyni tywod, ac 8.5 hectar ym Merthyr Mawr.

Mark Underhill, RSPB Cymru

Gwnaeth Mark gyflwyno ei hunan i'r grŵp. Rheoli gwarchodfeydd yw ei gefndir, ac mae ei waith presennol yn canolbwyntio ar greu gwlyptiroedd arfordirol ar draws Cymru fel rhan o raglen a amlinellir yn strategaeth Cymru'r RSPB. Mae croeso i safleoedd, yn enwedig yn ne Cymru, ychwanegu at y llwyddiant yng ngogledd Cymru, e.e. Cors Ddyga ar Ynys Môn, lle cofnodwyd aderyn y bwn yn yr haf.

Mae Mark wedi cynhyrchu amlinelliad o'r prosiect a fydd yn cael ei ddosbarthu i aelodau'r Grŵp Ecosystem Arfordirol gyda'r cofnodion.

Heather Lewis, Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae Heather yn canolbwyntio ar gynefinoedd morfeydd heli a chlogwyni môr ac yn cymryd rhan yn y Rhaglen Creu Cynefinoedd Cenedlaethol. Mae safleoedd ar draws Cymru yn cael eu hystyried fel posibiliadau, ac mae dau safle yng ngogledd Cymru â photensial da. Mae hi hefyd yn gweithio ar adroddiad SoNNaR a gwaith cwmpasu ar gyfer Morlyn Caerdydd, a all effeithio ar safleoedd morfeydd heli yn Aber Afon Hafren, os bydd yn mynd rhagddo. Mae tendr ar gyfer contract Dosbarthiad Llystyfiant Cenedlaethol er mwyn mapio cynefinoedd clogwyni arfordirol yn ardal Tyddewi (Sir Benfro) yn fyw ac yn canolbwyntio ar safleoedd sy'n cael eu rheoli.

Julie Creer, Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae bid Cronfa Treftadaeth y Loteri (£5m) yn cael ei ddatblygu mewn partneriaeth gyda Natural England, ac mae posibiliad i'r Alban ac Iwerddon ymuno â hwy. Mae'r prosiect yn ffocysu ar adnewyddu twyni tywod, ac mae pum safle posib wedi'u nodi yng Nghymru, ynghyd â 20 o safleoedd eraill ar draws y DU. Gallai hyn ffurfio rhan o fid fwy at LIFE (£8-10m), er ei bod yn bosibl y bydd cael arian cyfatebol yn broblem. Byddai'r gwersi a ddysgwyd o'r rhaglen adnewyddu twyni tywod yng Nghymru yn bwydo i mewn i'r bid. Mae'n bwysig nodi y bydd gan safleoedd ystyriaethau a blaenoriaethau gwahanol, e.e. gwarchodaeth, hamdden ayyb.

Mae canllawiau ar gyfer Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn cael eu hailwampio, ac mae Cyfoeth naturiol Cymru yn gweithio gyda Natural England ar y prosiect. Ni ragwelir unrhyw broblemau mawr – mewn 'meysydd chwilio' y bydd y prif newid, a bydd canllawiau yn ystyried celloedd arfordirol yn eu crynswth, a fydd yn rhoi ystyriaeth i waith adlinio'r arfordir posibl. Bydd y canllawiau newydd yn destun proses ymgynghori.

Alan Kearsley-Evans, Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru

Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn canolbwyntio ar bum safle arfordirol ar draws Cymru: Cwm Ivy, Mochras, Niwgwl, a Harlech. Mae Mochras yn safle posibl ar gyfer gwaith adlinio'r arfordir,

sydd hefyd yn wir ar gyfer Cwm Ivy, safle y bu i'r Grŵp Ecosystem Arfordirol ymweld ag ef yn ôl ym mis Mehefin, a lle mae'r morglawdd yn dal i gael ei erydu. Byddai'r gwersi a ddysgwyd gan y gwaith adlinio yng Nghwm Ivy yn ddefnyddiol fel astudiaeth achos. Mae trafodaethau yn mynd yn eu blaen yn Niwgwl o ran y ffordd ar hyd yr arfordir – nid yw'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn berchen ar yr holl dir yn yr ardal, ond mae'n berchen ar y tir lle o bosibl gellid dargyfeirio'r ffordd ato. Yn Whiteford ym Mro Gŵyr, mae prosiect Plantlife ar fin dechrau; Bydd Alan yn cysylltu â Plantlife o ran y cynnydd hyd yma. Fel rhan o ben-blwydd Prosiect Neifion, cynhaliodd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol gynhadledd yn Abertawe (Dyfodol ein Harfordiroedd), a bydd Alan yn anfon trafodion y cyfarfod at y grŵp.

Duncan Ludlow, Cyfoeth Naturiol Cymru

Ni chafwyd unrhyw gyllid eleni ar gyfer y gwaith adnewyddu twyni tywod ym Merthyr Mawr. Mae'n ystyried y posibiliad ar gyfer trawsleoli cwningod i Ferthyr Mawr er mwyn helpu gyda'r gwaith pori (cynnig posibl ar gyfer prosiect); mae ychydig o wartheg ar y safle, ond byddai pori ychwanegol o fudd.

Angus Garbutt, Canolfan Ecoleg a Hydroleg

Mae Angus yn cymryd rhan yn y prosiect Cynaliadwyedd Gwasanaethau Bioamrywiaeth ac Ecosystemau (a grybwyllwyd uchod). Mae hefyd yn ymchwilio i brosiect ehangach gyda sefydliadau Cyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol eraill er mwyn cyfuno arbenigedd ar draws arfordir y DU. Mae angen monitro cydweithredol a fydd yn dod â'r setiau data at ei gilydd o dan fframwaith cyffredin. Mae Angus hefyd yn gweithio ar brosiect mewnol er mwyn archwilio data hanesyddol i fesur newid mewn ardaloedd arfordirol dros gyfnod o amser a chyda' r nod o recriwtio dau aelod o staff er mwyn cyflenwi'r prosiect.

**3.** Adolygu Aelodaeth

Gwnaeth y grŵp drafod aelodaeth a chydnabod bod y Grŵp Ecosystem Arfordirol yn fforwm rhwydweithio ardderchog, a ffynhonnell arbenigedd sy'n cynnwys bioamrywiaeth a phrosesau ffisegol yr arfordir. Mae'r grŵp hefyd yn hybu gweithio mewn partneriaeth a chydweithrediad mewn prosiectau. Maent yn cydnabod bod angen cael cynrychiolaeth ledled Cymru, e.e. ar safleoedd arfordir gogledd Cymru, a chynrychiolaeth gan arbenigwyr technegol Cyfoeth Naturiol Cymru sydd wedi'u lleoli yn nhîm Rheoli Adnoddau Naturiol CNC. Bu Heather yn bresennol yng nghyfarfod cadeiryddion Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru, a drafododd brosiect mapio cynefinoedd Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru. Ni chafwyd gweledigaeth glir ar gyfer y gwaith, ond mae potensial i gysylltu'r gwaith mapio blaenoriaethol â'r Cynlluniau Gwella Blaenoriaethol (sy'n cynnwys safleoedd Natura 2000) fel gwaith bwlch tystiolaeth. Gallai'r Grŵp Ecosystem Arfordirol hefyd ddarparu arbenigedd mewn gwella'r mapiau cynefinoedd arfordirol blaenoriaethol, ond cydnabuwyd bod angen rhagor o eglurder o ran ym mha gyfeiriad mae'r gwaith ar gynefinoedd blaenoriaethol yn mynd.

Mae cynrychiolaeth academaidd yn y grŵp er mwyn ymdrin â'r prosiect Bwlch Tystiolaeth o fudd mawr, a bydd Martin Skov ac Angus yn arwain ar gyfer y Grŵp Ecosystem Arfordirol yn hyn o beth. Mae gan y grŵp arbenigedd i greu darlun cenedlaethol o fioamrywiaeth ac ecosystemau ar arfordir Cymru gyda'r egwyddor graidd wedi'i seilio ar fioamrywiaeth. Byddai fframwaith cyffredin ar gyfer cyfarfodydd y Grŵp Ecosystem Arfordirol yn ddefnyddiol yn ogystal â materion/diweddariadau gan aelodau cyn y cyfarfodydd. Gallai'r grŵp weithredu aelodaeth graidd ac aelodaeth ohebu; gallai'r olaf fwydo materion i mewn a bod yn bresennol os byddai'n cyflwyno eitem ar yr agenda neu fod ganddo ddiddordeb penodol mewn eitem ar yr agenda. Byddai o fudd os gall aelodau na allant ddod i gyfarfodydd awgrymu rhywun i gymryd eu lle.

Yn nhermau diweddariad rhaglen gwaith y Grŵp Ecosystem Arfordirol , gall y gwaith ar y bylchau tystiolaeth fwydo i mewn i'r rhaglen waith.

## 4. Bylchau Tystiolaeth

Gwnaeth aelodau nodi cynigion ar gyfer prosiectau posibl yn ystod eu diweddariad cyffredinol, ac fe'u hanogwyd i fynd ymlaen gyda hyn a chyflwyno cynigion. Galwodd Angus ar y grŵp i ymgysylltu â'r prosiect, sydd â lefel uchel o gefnogaeth a lansiad proffil uchel Mae gan fylchau gwybodaeth y potensial i gael eu llenwi ar lefel leol hyd at lefel strategol. Croesawir prosiectau israddedigion ynghyd a phrosiectau sydd â chanolbwynt strategol. Rhestrir manylion ar wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru, lle ceir profforma ar gyfer prosiectau posibl. Mae Martin yn gallu gweithio gyda sefydliadau academaidd i'w helpu hwythau i gymryd rhan yn y prosiect a chyrraedd at fwy o bobl, ac ymgysylltu ag arbenigwyr ar dwyni tywod. Bydd Heather yn gweithio gyda Martin er mwyn darganfod bylchau tystiolaeth CNC.

## 5. Cwmpasu'r weledigaeth ar gyfer gwlyptiroedd de Cymru – Mark Underhill, RSPB

Mae gweledigaeth yr RSPB o ran gwlyptiroedd yng Nghymru yn parhau am yr hanner can mlynedd nesaf (2065). Ar dde a gorllewin Cymru mae'r ffocws yn bennaf (Cas-gwent i Aberteifi). Mae'r prosiect yn ystyried cyflenwad ar raddfa dirlun yn ogystal â phrosiectau llai o faint sy'n ymgorffori buddiannau bioamrywiaeth ac economaidd. Bydd prosiectau yn cael eu cyflenwi drwy gyrff anllywodraethol, busnesau, a chronfeydd a ddyrannir i waith rheoli risgiau arfordirol. Bydd yr RSPB yn gweithio gyda phartneriaid er mwyn cynhyrchu mapio cyfle a chreu consensws ynghylch y cyfleoedd gorau. Mae amlinelliad mwy manwl o'r prosiect wedi'i atodi i'r camau gweithredu o ganlyniad i'r cyfarfod.

## 6. Dyddiad y cyfarfod nesaf

Bydd y grŵp yn anelu at gynnal cyfarfod ar 6 Gorffennaf yng ngogledd Cymru, manylion i'w cyhoeddi. Bydd y cyfarfod yn canolbwyntio ar raean bras llysieuog.

## Camau gweithredu

| Rhif | Camau gweithredu | Pwy | Erbyn | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Prosiect Bylchau Tystiolaeth Partneriaeth Bioamrywiaeth | PAWB | Parhaus | Bydd pob aelod o'r Grŵp Ecosystem Arfordirol yn adolygu'r wybodaeth ynglŷn â'r bylchau tystiolaeth ar arfordiroedd, gwella a blaenoriaethu bylchau, a darganfod bylchau newydd lle bo'n briodol gan ddefnyddio'r ffurflen gynnig ar wefan Partneriaeth |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Cymru | | | Bioamrywiaeth Cymru. Anfonir pob diweddariad at Angus a Martin. Ceir manylion am fylchau tystiolaeth a chynigion prosiect ar wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru. Dolen: http://www.biodiversitywales.org.uk/Prosiect-Bylchau-Tystiolaeth-PBC |
| 2 | Prosiect Bylchau Tystiolaeth Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru | Martin Skov | Parhaus | Bydd Martin yn gweithredu fel cynrychiolydd i gyhoeddi'r gwaith bylchau tystiolaeth gyda sefydliadau academaidd. |
| 3 | Cynllun Adfer Natur | Sean | | Anfon Cynllun Adfer Natur at y Grŵp Ecosystem Arfordirol |
| 4 | Cynhadledd Arfordir y Dyfodol | Alan | | Bydd Alan yn anfon trafodion Cynhadledd Arfordir y Dyfodol at y Grŵp Ecosystem Arfordirol. |
| 5 | Adolygu Aelodaeth | Sean<br><br>Pawb | Parhaus | Bydd Sean yn anfon e-byst at aelodau'r Grŵp Ecosystem Arfordirol nad ydynt yn weithredol ar hyn o bryd.<br><br>Bydd pob un yn canfasio cydweithwyr er mwyn sicrhau bod Cymru gyfan yn cael ei chynnwys mewn materion sy'n ymwneud â'r arfordir, a bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cysylltu ag arbenigwyr technegol. |
| 6 | Fformat y cyfarfod | Angus | | Bydd Angus yn llunio fframwaith sy'n amlinellu fformat ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol. |
| | | | | |
| **Diweddariad ar gamau gweithredu blaenorol** | | | | |
| | Ardaloedd graean bras gyda llystyfiant arfordirol â blaenoriaeth | | Wedi'i ohirio | Bydd tîm arfordir CNC yn mynd â hyn yn ei flaen. |
| | Integreiddio Mapiau Cynefinoedd Blaenoriaethol | | Wedi'i ohirio | Mae'r gwaith hwn wedi'i ohirio. Bydd tîm arfordirol CNC yn mynd â hyn yn ei flaen os bydd y prosiect yn ailgychwyn. |